**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol**
**Minister for Finance and Local Government**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/1163/22

Huw Irranca-Davies AS
Cadeirydd
Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1SN

22 Ebrill 2022

**BIL DEDDFAU TRETHI CYMRU etc. (PŴER I ADDASU)**

Annwyl Huw,

Diolch am adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a gyhoeddwyd ar 08 Ebrill 2022 mewn perthynas â Deddfau Trethi Cymru etc. (Pŵer i Addasu) Bil ("y Bil"). Gweler isod fy ymateb i'ch cais am wybodaeth cyn y Ddadl Cyfnod 1 ar yr Egwyddorion Cyffredinol.

Rwyf hefyd wedi ysgrifennu heddiw at Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid mewn ymateb i argymhelliad yn gofyn am wybodaeth cyn y Ddadl Cyfnod 1 ar yr Egwyddorion Cyffredinol.

**Argymhelliad 3. Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog ddarparu enghreifftiau o amgylchiadau lle byddai'r Gweinidog yn cael ei atal rhag defnyddio'r pŵer a gynigir yn adran 1 o'r Bil o ganlyniad i'r prawf 'priodol'.**

Y nod wrth gynnwys yr ymadrodd "[yn] angenrheidiol neu'n briodol" yn adran 1(1) o'r Bil yw sicrhau cydbwysedd rhwng rhoi digon o gyfyngiadau ar ddefnyddio'r pŵer, gan hefyd roi rhywfaint o hyblygrwydd i Weinidogion Cymru i sicrhau bod yr ymateb yn iawn i'n dinasyddion a'n trethdalwyr.

O ystyried mai prawf goddrychol yw'r un 'angenrheidiol neu briodol', mae'n anodd penderfynu gydag unrhyw sicrwydd beth y gallai Gweinidogion Cymru ei ystyried yn briodol yn y dyfodol. I roi enghraifft gyffredinol: pe bai'r pŵer yn cael ei ddefnyddio i gyflwyno newidiadau sylweddol iawn i'r Dreth Trafodiadau Tir mewn ymateb i newid bach gan lywodraeth y DU i'r dreth flaenorol, mae'n bosibl na fyddai hyn yn cael ei ystyried yn ddefnydd priodol o'r pŵer.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Yn y pen draw, byddai pob penderfyniad i ddefnyddio'r pŵer, ac a yw'r defnydd yn briodol, yn dal i fod yn agored i her gyfreithiol, a byddai gofyn hefyd i'r Senedd ei gymeradwyo. Bydd y Senedd yn craffu ar setiau unigol o reoliadau a bydd eu hystyriaeth ynghylch a yw'r prawf 'priodol' goddrychol yn cael ei fodloni yn rhan o'r ystyriaeth honno. At hynny, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i'r llysoedd, dros amser ac mewn ymateb i heriau gan drethdalwyr, ystyried a oedd gwneud y rheoliadau yn 'angenrheidiol neu'n briodol'. Bydd y penderfyniadau hynny wedyn yn llywio cwmpas pŵer Gweinidogion Cymru a ddarperir gan y Bil.

Yn yr un modd, mae'n bwysig pwysleisio eto na ddylai newid gan lywodraeth y DU, os yw deddfwriaeth y DU a deddfwriaeth Cymru yn debyg, olygu bod yn rhaid efelychu newidiadau'r DU. Byddai hynny'n tanseilio diben datganoli. Yn hytrach, byddai angen i'r newidiadau yng Nghymru, mewn perthynas â digwyddiad sbarduno o dan adran 1(1)(c), gael yr un effaith, yn fras, ar y Gronfa Gyfunol, neu o leiaf beidio ag arwain at gynyddu'r baich treth ar ein trethdalwyr yn sylweddol. Felly, byddai ymateb a fyddai'n cael yr un effaith ariannol, yn fras, â newid llywodraeth y DU, yn briodol, hyd yn oed pe bai'n cael ei weithredu'n wahanol. Ond ni fyddai ymateb a fyddai'n arwain at effaith ariannol sylweddol wahanol, yn enwedig lle bo hynny'n cynyddu'r dreth sy'n daladwy gan drethdalwyr Cymru, yn briodol.

Rwyf wedi darparu enghraifft o'r blaen o sefyllfa lle y byddai newidiadau'n briodol, ond nid yn angenrheidiol o bosibl. Mewn sefyllfa o'r fath mae'r rheoliadau wedi'u gwneud (boed drwy'r weithdrefn gadarnhaol ddrafft neu'r weithdrefn gadarnhaol 'gwnaed') ac yn ystod y broses graffu neu, yn bwysig, ar ôl y cyfnod craffu hwnnw a'r bleidlais, gwelir y gallai'r rheolau newydd weithio'n well. Gallai hyn ddigwydd pe bai categori o drethdalwyr yn digwydd cael ei gynnwys o fewn tâl newydd nad oedd yn ddymunol nac yn deg. Felly, ni fyddai eu heithrio rhag talu'r dreth yn angenrheidiol, ond gallai fod yn briodol.

**Argymhelliad 9: Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog nodi sefyllfaoedd tebygol lle gallai rheoliadau sydd i'w gwneud mewn perthynas â phob un o'r dibenion a restrir ym mharagraffau (a) i (d) o adran 1(1) o'r Bil:**
- **osod treth gwarediadau tirlenwi neu dreth trafodiadau tir yn rhinwedd adran 2(1)(a);**
- **osod neu ymestyn atebolrwydd i gosb yn rhinwedd adran 2(1)(b)**

Gweler fy ymateb i Gadeirydd y Pwyllgor Cyllid ynghylch argymhelliad tebyg bod Llywodraeth Cymru yn darparu enghreifftiau o'r amgylchiadau penodol lle mae'n rhag-weld y bydd y pŵer i wneud rheoliadau yn adran 1(1) yn cael ei ddefnyddio i ddiwygio pob rhan o Ddeddf Casglu a Rheoli Trethi (Cymru) 2016 (ac eithrio Rhan 2), Deddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017.

Mae'r ymateb hwnnw'n nodi nifer o enghreifftiau mewn perthynas â thair Deddf Drethi Cymru ar gyfer pob un o'r pedwar prawf diben a sut y gallant effeithio ar swm y dreth gwarediadau tirlenwi neu'r dreth trafodiadau tir sy'n daladwy. Mewn perthynas â gosod cosb, bydd hynny'n debygol o gael ei sbarduno'n bennaf gan ymateb i achos llys (adran 1(1)(d)) neu, yn llai tebygol, er mwyn diogelu rhag osgoi treth, efallai drwy gyflwyno cosb newydd wedi'i thargedu at weithgaredd neu ymddygiad penodol gan drethdalwyr neu eu cynghorwyr (adran 1(1)(b). Nid yw cosbau'n effeithio ar y swm a delir i'r Gronfa Gyfunol (adran 1(1)(c)), ac mae'n annhebygol y bydd rhwymedigaethau rhyngwladol yn effeithio arnynt (adran 1(1)(a)).

**Argymhelliad 13: Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai'r Gweinidog esbonio pam na chafodd gweithdrefn uwchgadarnhaol ei chynnwys yn y Bil i alluogi Pwyllgorau'r Senedd i**

**gael digon o amser i gymryd tystiolaeth wrth graffu ar reoliadau y gellir eu gwneud o dan adran 1 o’r Bil.**

Ni ddarperir ar gyfer gweithdrefn uwchgadarnhaol yn y Rheolau Sefydlog. O'r herwydd, mae'n anodd dirnad gydag unrhyw sicrwydd y math penodol o weithdrefn y mae'r Pwyllgor yn ei rag-weld. Beth bynnag, rwyf o'r farn bod digon o amser craffu wedi'i gynnwys yng ngweithdrefnau'r Bil i ganiatáu i Bwyllgorau'r Senedd gymryd tystiolaeth fel rhan o'r broses graffu.

Yn achos rheoliadau cadarnhaol ‘gwnaed’, mae Adran 4(5) o'r Bil eisoes yn darparu amser ychwanegol ar gyfer craffu, hyd at uchafswm o 60 diwrnod, er mwyn sicrhau y gellir casglu tystiolaeth, ysgrifennu adroddiadau a chynnal dadleuon a thrafodaethau, os yw’r rheoliadau'n arbennig o gymhleth er enghraifft. Felly, rydym wedi ystyried hyn ac wedi cynnwys gofyniad i'r rheoliadau gael eu gosod am gyfnod hwy uwchlaw a thu hwnt i'r broses 28 diwrnod arferol ar gyfer gwneud rheoliadau o dan y weithdrefn gadarnhaol.

**Argymhelliad 14:** Cyn y ddadl Cyfnod 1, dylai’r Gweinidog egluro sut y dehonglir ‘oherwydd brys’ wrth ddewis defnyddio’r weithdrefn gadarnhaol ‘gwnaed’ o dan adran 4 o’r Bil.

Prawf goddrychol yw hwn a mater i Weinidogion Cymru yw penderfynu a oes angen gwelliant oherwydd brys, a hynny’n seiliedig ar yr amgylchiadau unigol ar y pryd. Nid yw brys wedi'i ddiffinio yn y Bil, ac nid yw wedi'i ddiffinio ychwaith ym mharagraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf Ddehongli 1978. O'r herwydd, rwyf o'r farn bod yn yn rhaid defnyddio ystyr arferol “brys” sef yr angen i ymdrin â rhywbeth ar unwaith neu i rywbeth ddigwydd ar unwaith: pwysigrwydd sy’n gofyn am weithredu cyflym.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AS/MS**
Y Gweinidog Cyllid a Llywodraeth Leol
Minister for Finance and Local Government

CC: Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid